Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 1)

Mai 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 1)

Mai 2025

**Author:**
Jennie Bibbings a Gwennan Hardy

# Cynnwys

Yr hyn a gynigiwyd gan y Papur Gwyn ..... 2

Ymateb i'r Papur Gwyn ..... 3

Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei gyflawni ..... 4

Sut y mae'r Bil yn wahanol i'r Papur Gwyn ..... 4

Faint y gallai ei gostio i weithredu'r Bil? ..... 8

Cipolwg ar y Bil ..... 9

Rhan 1: Digartrefedd ..... 10

- Helpu i atal digartrefedd ..... 10
- Asesu anghenion a gwneud cynlluniau ar gyfer sicrhau llety a chymorth ..... 10
- Adolygiadau ..... 11
- Diwygio dyletswyddau i sicrhau llety ..... 11
- Diddymu hawlogaeth drwy gyeirio at anghenion blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol ..... 13
- Atgyfeiriadau cysylltiad lleol ..... 13
- Dyletswyddau pellach i atal digartrefedd ..... 15
- Ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben ..... 15
- Dyletswydd i ofyn a gweithredu ..... 16
- Darpariaeth ar gyfer pobl hyglwyf ..... 17
- Ceisio barn pobl ddigartref ..... 18
- Cyflwr llety ..... 19
- Cydweithredu ..... 19

Gweld llety ........ 20

Rhan 2: Dyrannu tai cymdeithasol ........ 20

Personau cymhwysol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol ........ 20

Ffafriaeth i bersonau mewn cynlluniau dyrannu ........ 20

Cofrestrau ........ 21

Rhan 3: Cyffredinol ........ 21

Atodlen 1: Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol ........ 22

# Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddigartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol i gefnogi'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae'r Bil yn ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n gymwys i gael cymorth digartrefedd ac annog camau cynharach i'w atal. Mae'n gwneud hyn drwy roi diwedd ar y profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, a thrwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol helpu i atal digartrefedd os yw'n debygol y bydd ceisydd yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis.

Mae'r Bil yn cynnig ymestyn dyletswyddau cyfreithiol i gyrff cyhoeddus penodedig "ofyn a gweithredu", gan fynd ati i nodi pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u cyfeirio at gymorth. Mae hefyd yn cynnwys mesurau i gynyddu nifer y tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref.

Mae'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 (Deddf 1996). I raddau llai, mae hefyd yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bwriedir i'r papur briffio hwn gefnogi a llywio gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth. Mae'n crynhoi darpariaethau'r Bil, y cefndir a sut y mae'r Bil yn wahanol i'r **Papur Gwyn** a'i rhagflaenodd.

# Cefndir

Y Bil hwn yw penllanw'r gwaith a ddechreuodd fwy na phum mlynedd yn ôl, pan nododd **Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd** Llywodraeth Cymru argymhellion i helpu'r Llywodraeth i gyflawni ei nod o wneud digartrefedd yn brin, yn fyrhoedlog a sicrhau nad yw'n digwydd eto.

Roedd argymhellion y Grŵp yn cynnwys nifer o gynigion deddfwriaethol. Argymhellodd wneud mwy i geisio atal digartrefedd yn gynnar drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynorthwyo ceisydd os yw'n debygol o golli ei gartref o fewn chwe mis, yn hytrach na 56 diwrnod. Galwodd y Grŵp hefyd am ddiddymu'r profion o ran angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol.

Ar ôl i'r Grŵp gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru, comisiynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio ar y pryd, Julie James AS, yr elusen digartrefedd Crisis i greu grŵp pellach, y **Panel Adolygu Arbenigol**. Ym mis Medi 2023 gwnaeth y grŵp hwn **argymhellion manwl** i Lywodraeth Cymru ar sut y dylid diwygio deddfwriaeth.

## Yr hyn a gynigiwyd gan y Papur Gwyn

Ym mis Hydref 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Phapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd**. Roedd hyn yn cynnwys cynigion a oedd yn cyd-fynd yn fras ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, a thrafodwyd ambell wahaniaeth yn yr **erthygl hon gan Ymchwil y Senedd**. Y prif gynigion oedd:

- Cynyddu'r diffiniad o'r cyfnod o amser y mae rhywun "dan fygythiad o ddigartrefedd" o 56 diwrnod i chwe mis;
- Rhoi diwedd ar y prawf angen blaenoriaethol, a chael **"cyfnod paratoi wedi'i ddiffinio'n glir"** i helpu awdurdodau lleol i baratoi;
- Rhoi diwedd ar y prawf digartrefedd bwriadol a chyflwyno prawf "camddefnydd bwriadol" newydd i sicrhau na fydd rhywun wedi camddefnyddio'r system ddigartrefedd yn fwriadol er mwyn cael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol yn cael unrhyw flaenoriaeth o ran tai cymdeithasol;
- Peidio â rhoi diwedd ar ar y prawf cysylltiad lleol, ond ychwanegu grwpiau o bobl at y rhestr o eithriadau, er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt

yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol;

- Rhoi diwedd ar y prawf "methiant afresymol i gydweithredu", a defnyddio rhesymau ymddygiadol mwy cyfyngedig yn ei le o ran pryd y caiff awdurdodau lleol ddod â dyletswyddau i ben;
- Creu dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus i nodi pobl sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, eu cyfeirio at gymorth, cymryd camau i liniaru'r risg o ddigartrefedd, a chydweithio ag awdurdodau lleol. Roedd rhestr o gyrff cyhoeddus yn y Papur Gwyn a oedd yn nodi byrddau iechyd lleol (gan gynnwys gofal sylfaenol), adrannau gwasanaethau cymdeithasol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn cynnwys nod polisi i gynnwys sefydliadau sydd o dan reolaeth Llywodraeth y DU, gan restru'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf, carchardai, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF, yr heddlu, y Swyddfa Gartref mewn perthynas â ffoaduriaid, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn perthynas â llety'r lluoedd arfog;
- Gwella safonau ar gyfer llety dros dro a llety sefydlog;
- Cynyddu nifer y tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref, gan gynnwys dyletswydd newydd ar landlordiaid cymdeithasol i beidio â gwrthod cais gan awdurdod tai lleol i ailgartrefu ceisydd digartrefedd statudol yn afresymol; a
- Gwella hawliau pobl sydd wedi bod mewn gofal i gael cymorth digartrefedd, mewn ymateb i **argymhellion** Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd.

## Ymateb i'r Papur Gwyn

Roedd **ymatebion rhanddeiliad i'r Papur Gwyn** yn gadarnhaol ar y cyfan, er bod anghytuno ar rai pwyntiau.

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid y trydydd sector yn ei groesawu'n fawr, gyda **Cymorth Cymru** a **the Wallich** yn galw am i'r Bil adlewyrchu'r Papur Gwyn a pheidio â gwyro oddi wrth y cynigion allweddol.

Croesawodd awdurdodau lleol weledigaeth y Papur Gwyn hefyd, ond gwnaeth nifer ohonynt **fynegi pryder** ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r profion angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a rhanddeiliaid y trydydd sector yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig hyn.

Pwysleisiodd awdurdodau lleol hefyd oblygiadau'r Papur Gwyn o ran adnoddau,

gan ragweld effeithiau gwahanol mewn gwahanol awdurdodau oherwydd ffactorau fel argaeledd tai a chyfansoddiad y boblogaethau lleol. Mynegodd rhai ofn y gallai gwasanaethau sydd eisoes yn gweithredu i'w llawn gapasiti, neu uwchlaw hynny, gael eu gorlethu.

Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cefnogi'r cynigion **ac eithrio'r** ddyletswydd newydd arfaethedig ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i beidio â gwrthod atgyfeiriad gan awdurdod lleol yn afresymol. Roedd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid y trydydd sector yn cefnogi'r ddyletswydd newydd arfaethedig hon.

Roedd **bron pob rhanddeiliad** yn croesawu'r dyletswyddau arfaethedig ar gyfer y sector cyhoeddus i nodi, cyfeirio a chydweithredu. Fodd bynnag, galwodd y rhan fwyaf o randdeiliaid am i'r rhestr o gyrff sector cyhoeddus perthnasol gynnwys ysgolion a lleoliadau addysg eraill. Croesawodd rhai rhanddeiliaid iechyd y ffaith bod y rhestr arfaethedig yn cynnwys gofal sylfaenol.

Thema gyffredin ar draws ymatebion yr holl randdeiliaid oedd y ffaith bod angen sicrhau adnoddau priodol i gyflawni'r uchelgais. Dywedodd rhanddeiliaid fod angen i hyn gynnwys cynnydd o ran y cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy, yn ogystal â mwy o gyllid ar gyfer adrannau digartrefedd awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

## Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei gyflawni

Mae'r Memorandwm Esboniadol (y Memorandwm) gan Lywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â'r Bil, yn nodi nad yw'r dull presennol o ymdrin â digartrefedd yn gynaliadwy a bod nifer uchel o bobl sy'n cysylltu â'r awdurdodau lleol i ddweud eu bod yn ddigartref, bod nifer uchel o bobl mewn llety dros dro a bod y cyfraddau atal yn gostwng.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae diwygio deddfwriaethol yn gam angenrheidiol i gyflawni trawsnewid systemig, ochr yn ochr â newidiadau ehangach o ran polisi ac arfer, a buddsoddiad yn y cyflenwad tai. Dywed Llywodraeth Cymru y dylai'r mesurau hyn wella'r cyfraddau atal, arwain at wasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion, a gwneud gwell defnydd o'r cyflenwad llety i'r rhai sy'n wynebu'r angen mwyaf.

## Sut y mae'r Bil yn wahanol i'r Papur Gwyn

Mae'r Bil yn adlewyrchu nifer o gynigion allweddol y Papur Gwyn, gan gynnwys

rhoi diwedd ar y profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn cael eu dileu yn **2030-31 ar y cynharaf**.

Isod mae rhai gwahaniaethau mawr rhwng y Bil a'r Papur Gwyn. Nodwch nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- **Cysylltiad lleol.** Yn y Papur Gwyn, gofynnwyd am farn ar **greu eithriadau ychwanegol** i'r prawf cysylltiad lleol. Nid yw'r Bil yn gwneud hyn ond mae'n cyflwyno prawf "cysylltiad lleol â Chymru" o ran pennu hawlogaeth i'r brif ddyletswydd tai yn adran 75. Mae'n ychwanegu pŵer i Weinidogion wneud rheoliadau i ddiffinio cysylltiad lleol (*adrannau 6 a 12*). Dywed y Memorandwm fod hyn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o adnoddau.
- **Cyflawni dyletswyddau digartrefedd drwy ystod gynyddol o opsiynau tai.** Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd **rhestr o fesurau diogelu,** nad yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u nodi yn y Bil na'r Memorandwm. Mae'r Bil yn cadw'r gofyniad am ganiatâd y ceisydd fel mesur diogelu, ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r ceisydd o fewn saith mis i gyflawni'r ddyletswydd digartrefedd (*adrannau 7 a 19*).
- **Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i "ofyn a gweithredu".** Drwy fabwysiadu'r derminoleg "gofyn a gweithredu", mae'r Bil yn anelu at adlewyrchu dyletswyddau tebyg ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas ag adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Deddf 2015) (*adran 21*).

  Yn wahanol i'r **Papur Gwyn**, nid yw rhestr y Bil o gyrff cyhoeddus y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF na gwasanaethau gofal sylfaenol (sy'n cynnwys meddygfeydd teulu, nyrsys cymunedol, fferyllfeydd, deintyddion ac optometryddion). Yn debyg i'r Papur Gwyn, nid yw'r rhestr yn cynnwys sefydliadau addysgol na landlordiaid preifat, sef dau grŵp a argymhellwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol.

  Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu rhagor o gyrff at y rhestr, ac mae'r Memorandwm yn mynegi bwriad y bydd rhagor yn cael eu hychwanegu ymhen amser.
- **Cam-drin domestig.** Mae'r Bil yn ehangu'r diffiniad yn Neddf 2014 o "gamdriniaeth ddomestig" i'w wneud yn gyson â darnau eraill o ddeddfwriaeth ac i sicrhau ei fod yn cynnwys ymddygiad rheolaethol ac ymddygiad gorfodaethol, a chamdriniaeth economaidd a seicolegol. Fodd bynnag, nid

yw'r Bil yn bwrw ymlaen â'r cynnig a wnaed yn y Papur Gwyn i ddiwygio'r brif ddyletswydd tai i helpu ceisydd sydd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig **i gadw ei lety presennol** drwy fesurau fel gosod nodweddion diogelwch ffisegol. Nid yw'r Memorandwm yn egluro pam nad yw hyn wedi'i gynnwys.

- **Rhyddhau o'r ysbyty.** Nid yw'r Bil yn bwrw ymlaen â'r cynigion yn y Papur Gwyn am i **asesiadau rhyddhau o'r ysbyty** gynnwys ystyried anghenion tai claf, ac am ddyletswydd ar y cyd ar gyfer iechyd a'r awdurdod lleol i gydweithio i atal digartrefedd ar adeg rhyddhau claf o'r ysbyty. Dywed y Memorandwm fod hyn yn sgil pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid iechyd ynghylch beichiau gweinyddol ac oedi wrth ryddhau cleifion.
- **Pobl sy'n mynd i'r carchar ac yn gadael y carchar.** Mae **nifer o gynigion sy'n canolbwyntio ar atal** ar gyfer unigolion yn y carchar na fyddant yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil. Yn y Memorandwm, nodir mai'r rheswm am hyn yw'r pryderon sylweddol a fynegwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag argaeledd tai, mynediad at unigolion yn y carchar, a'r stigma sy'n gysylltiedig â mynd i'r carchar. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni amcanion y polisi drwy ddyletswyddau eraill yn y Bil megis "gofyn a gweithredu", a thrwy ganllawiau.

  Mae'r Bil yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori i bobl a gedwir yn gaeth (*adran 27*).
- **Pobl sy'n gadael gofal.** Mae'r Bil yn mynd ymhellach na'r Papur Gwyn o ran pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r Memorandwm yn cynnwys nod polisi na ddylai unrhyw berson ifanc fod yn gadael gofal i fynd yn syth i ddigartrefedd. Er bod **rhai mesurau'n cael ei cynnig** yn y Papur Gwyn i roi mwy o flaenoriaeth i bobl sy'n gadael gofal ac sy'n ddigartref o ran dyrannu tai cymdeithasol, mae'r Bil yn creu chweched categori blaenoriaeth resymol newydd ar gyfer pobl sy'n gadael gofal rhwng 18 a 21 oed ni waeth beth fo'u statws digartrefedd. Nod hyn yw sicrhau nad oes rhaid i bobl sy'n gadael gofal rhwng 18 a 21 oed gysylltu i ddweud eu bod yn ddigartref i gael blaenoriaeth am dai cymdeithasol (*adrannau 23 a 37*).

  Nid yw'r Bil na'r Memorandwm yn cyfeirio at y cynnig yn y Papur Gwyn i **gydnabod pob person sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel rhai y mae arnynt angen blaenoriaethol** nes bod y prawf angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu.
- **Ceisio barn pobl ddigartref.** Yn y Papur Gwyn, roedd addewid i archwilio opsiynau ar gyfer **gwrando ar safbwyntiau** pobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd i lywio "dealltwriaeth [Llywodraeth Cymru] o'r ffordd y mae systemau digartrefedd yn gweithio a sicrhau bod yr adborth hwn yn dylanwadu

ar ddatblygiad parhaus gwasanaethau ac yn ysgogi camau gweithredu gan Weinidogion Cymru lle y bo'n briodol."
Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ymgynghori â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd lleol. Mae dyletswydd debyg yn cael ei rhoi ar Lywodraeth Cymru pan fo'n datblygu canllawiau digartrefedd (*adran 29*).

- **Addasrwydd llety.** Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd **gwahardd llety â pheryglon Categori 1** rhag cael ei ystyried yn addas, gan gynnwys llety yr ystyrir ei bod yn anaddas i bobl fyw ynddo. Nid yw'r Bil yn cyflwyno gwaharddiad, ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol "roi sylw" i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau) wrth benderfynu ynghylch addasrwydd (*adran 30*).

  Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys **ystod o gynigion eraill** i wella safonau llety, gan fynd i'r afael â ffactorau fel gorlenwi, lleoedd cysgu a rennir, a lleoliad. Yn y Memorandwm, nodir bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn y dyfodol, er mwyn gwneud newidiadau i'r gofynion addasrwydd.

  Mae newid pellach o ran y cyfnod o amser pan gaiff ceisydd ofyn am adolygiad o addasrwydd y cynnig llety. Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd **ymestyn y 21 diwrnod presennol** i fod yn gyfnod adolygu agored. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, mae hyn wedi'i leihau yn y Bil i chwe mis.

- **Plant a phobl ifanc mewn llety dros dro anaddas.** Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd na ddylid lletya unrhyw berson 16 neu 17 oed mewn llety dros dro heb gefnogaeth. Yn y Memorandwm, nodir yr eir i'r afael â hyn yn y gwelliannau i Orchymyn Addasrwydd 2015.

  Hefyd yn y Papur Gwyn, cynigiwyd na ddylid rhoi pobl ifanc 25 oed ac iau mewn llety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast, am unrhyw gyfnod o amser. Yn dilyn pryderon gan rai rhanddeiliaid ynghylch gweithredu, a gaiff eu hamlinellu yn y Memorandwm, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen â hyn yn y Bil.

- **Cyflwyno adroddiad ar lety dros dro.** Yn y Papur Gwyn, **cynigiwyd cynnal adolygiadau bob tair blynedd** o safonau llety dros dro i asesu a oedd datblygiadau yn y cyflenwad yn galluogi gwella safonau. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiadau rheolaidd o gyflwr a defnydd llety dros dro ledled Cymru bob pum mlynedd. Nid yw'r Bil yn sôn am asesiad ynghylch a ellir gwella safonau, er bod y Memorandwm yn egluro mai dyma fyddai'r bwriad.

Mae'r Bil yn cynnwys y dyddiad 31 Rhagfyr 2030 fel y terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad cyntaf a'i osod gerbron y Senedd (*adran 31*).

- **Rheoli rhestrau aros.** Yn y Papur Gwyn, **cynigiwyd pŵer** i awdurdodau lleol dynnu pobl nad oes angen tai arnynt oddi ar y rhestr aros yn eu hardaloedd. Yn y Bil, rhoddir diffiniad ehangach, gan roi disgresiwn i awdurdodau lleol benderfynu pwy y dylid eu dosbarthu yn "bersonau cymhwysol" ar gyfer tai cymdeithasol yn eu hardaloedd ai peidio. Mae'r adran yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi dosbarthiadau o "bersonau cymhwysol" (*adran 35*).
- **Ffafriaeth ychwanegol i aelwydydd digartref.** Yn y Papur Gwyn, cynigiwyd rhoi ffafriaeth ychwanegol o ran dyraniadau tai cymdeithasol i **aelwydydd sy'n ddigartref** ac y mae'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt, dros grwpiau blaenoriaeth eraill yr ystyrir bod ganddynt angen brys o ran tai. Ni fyddai hyn yn diwygio'r prif gategorïau ffafriaeth resymol ond byddai'n rhagnodi blaenoriaeth i aelwydydd digartref yn y categorïau hynny. Nid yw'r Bil yn cynnwys y cynnig hwn. Yn y Memorandwm, nodir y cafodd hyn ei hepgor mewn ymateb i bryderon awdurdodau lleol y gallai gosbi ceiswyr nad ydynt yn ddigartref ond sydd mewn angen dybryd o ran tai o hyd.
- **Cysondeb perfformiad awdurdodau lleol.** Yn y Papur Gwyn, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n ystyried **a oedd angen pwerau cyfreithiol ychwanegol arni** i sicrhau bod y ddeddfwriaeth newydd yn cyflawni ei hamcanion, gan gynnwys pwerau posibl i Lywodraeth Cymru wneud cyfarwyddiadau i ymyrryd mewn achosion pan fo awdurdod lleol yn methu â chyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. Nid oes sôn yn y Memorandwm am ganlyniadau'r ystyriaethau hyn, ac nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau newydd.

## Faint y gallai ei gostio i weithredu'r Bil?

Amcangyfrifir y bydd y Bil yn costio **£325.8 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd** (2026-7 i 2035-6), yn cynnwys:

- **£15.3 miliwn mewn costau pontio**, wedi'u rhannu ar draws Llywodraeth Cymru (£0.4 miliwn), awdurdodau lleol (£2.4 miliwn), Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector cyhoeddus ehangach (£12.5 miliwn); a
- **£310.6 miliwn mewn costau rheolaidd**, y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu talu gan awdurdodau lleol (£302.4 miliwn). Bydd y swm sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru (£1.5 miliwn) a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector cyhoeddus ehangach (£6.6 miliwn).

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir manteision ariannol o **£1.195 biliwn dros gyfnod o 10 mlynedd** oherwydd y gwelliant disgwyliedig o ran atal digartrefedd a sicrhau rhyddhad rhagddo o ganlyniad i'r Bil.

Amcangyfrifir manteision ariannol i gyrff cyhoeddus o £645.7 miliwn, sy'n cynnwys £475 miliwn i awdurdodau lleol, £167 miliwn i'r sector cyhoeddus ehangach, a £3.7 miliwn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae hefyd yn amcangyfrif y bydd unigolion ac aelwydydd yn cronni gwerth £549.6 miliwn o fanteision cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys £432.9 miliwn mewn manteision iechyd, a £116.7 miliwn mewn manteision o ran enillion.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch graddau'r gwelliannau a fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i'r Bil. Yr amcangyfrif canolog a ddefnyddir yn y gwaith modelu ariannol yw gwelliant o 10 pwynt canran yn y cyfraddau atal digartrefedd a sicrhau rhyddhad rhagddo, ac yn ôl y Memorandwm, ystyrir bod hyn yn "realistig ac yn gyraeddadwy". Mae'n amcangyfrif mai'r lefel lle gellir ystyried bod y costau o gyflwyno'r diwygiadau wedi cael eu hadennill fyddai gwelliant o 6.1 pwynt canran yn y gyfradd atal a dim newid yn y gyfradd rhyddhad.

## Cipolwg ar y Bil

Mae gan y Bil (fel y'i cyflwynwyd) 43 o adrannau, sydd wedi'u trefnu'n dair rhan, ac un atodlen.

- Mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar ddigartrefedd;
- mae Rhan 2 yn canolbwyntio ar ddyrannu tai cymdeithasol;
- mae Rhan 3 yn gwneud darpariaethau cyffredinol; ac
- mae Atodlen 1 yn gwneud mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol i ddeddfwriaeth.

Mae Rhan 2 o'r Memorandwm yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhoi crynodeb o gostau a manteision amcangyfrifedig y Bil, tra bod Nodiadau Esboniadol yn cael eu darparu (yn Atodiad 1 i'r Memorandwm) i gyd-fynd â'r Bil ac i gynorthwyo'r rhai sy'n ei ddarllen.

# Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil a'r bwriad o ran polisi

## Rhan 1: Digartrefedd

### Helpu i atal digartrefedd

Mae **adran 1** yn diwygio adran 55 o Ddeddf 2014 fel bod person yn cael ei ystyried "o dan fygythiad o ddigartrefedd" **os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis**, yn hytrach na'r cyfnod presennol o 56 diwrnod. Mae'r gwelliant hefyd yn nodi bod person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol iddo ildio meddiannaeth o'i lety, neu os yw cais wedi'i wneud i'r Uchel Lys neu'r llys sirol i adennill meddiant. Y bwriad yw ei gwneud yn glir i awdurdodau lleol fod hysbysiadau meddiant yn fygythiad o ddigartrefedd.

Mae **adran 2** yn dileu adran 65 o Ddeddf 2014 ac yn atgyfnerthu geiriad adran 66 fel bod rhaid i'r awdurdod lleol "gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw." Y bwriad yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau effeithiol yn gynt.

### Asesu anghenion a gwneud cynlluniau ar gyfer sicrhau llety a chymorth

Mae **adran 3** yn diwygio adran 62 o Ddeddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod lleol yn cynnal asesiad o sefyllfa ceisydd o ran tai, **fod anghenion cymorth y ceisydd yn cael eu cynnwys** a bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i'r safbwyntiau hynny. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen ar y ceisydd o ran deall gwybodaeth a gyfathrebir gan yr awdurdod lleol. Y bwriad yw ei gwneud yn haws i geiswyr ddeall llythyrau a mathau eraill o gyfathrebu.

Mae **adran 4** yn diwygio Deddf 2014 i fewnosod darpariaeth newydd sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i **baratoi a chynnal cynllun atal, cefnogaeth a llety** ar gyfer ceiswyr y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo. Mae hyn yn datblygu ymhellach y Cynlluniau Tai Personol cyfredol. Mae'r adran yn amlinellu'r broses ar gyfer paratoi cynllun atal, cefnogaeth a llety ac yn nodi'r amgylchiadau pan fo'n rhaid i awdurdodau tai lleol adolygu'r cynllun. Yn y Memorandwm, nodir mai bwriad y cynllun atal, cefnogaeth a llety yw cynnig adnodd i gefnogi dull o

ymdrin â digartrefedd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma.

## Adolygiadau

Mae **adran 5** yn diwygio Deddf 2014 i roi **hawliau newydd i geiswyr ofyn am adolygiad** mewn perthynas â'r penderfyniadau a'r asesiadau a ganlyn a wneir gan awdurdod tai lleol:

- penderfyniad i beidio â chynnal asesiad o achos person;
- asesiad o anghenion tai;
- asesiad o'r gefnogaeth y mae ei hangen ar geisydd i gadw llety neu oresgyn rhwystrau i fyw'n annibynnol; a
- chynllun atal, cefnogaeth a llety.

Y bwriad wrth gyflwyno'r hawliau newydd i ofyn am adolygiad yw darparu mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

Mae'r adran hon hefyd yn diwygio hawl bresennol i adolygiad mewn perthynas ag addasrwydd y llety a gynigir gan awdurdod tai. Mae'n ymestyn yr amserlenni presennol fel y gall ceiswyr ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg cyn derbyn cynnig. Ar ôl derbyn cynnig, gall ceiswyr ofyn am adolygiad o fewn chwe mis i'r llety gael ei ddarparu, neu ar unrhyw adeg pan fydd dyletswydd o dan adran 66, 68 neu 75 o Ddeddf 2014 yn gymwys. Y bwriad yw helpu i leihau digartrefedd mynych drwy sicrhau y gall mwy o geiswyr gael mynediad at y llety cywir ar yr amser cywir.

## Diwygio dyletswyddau i sicrhau llety

Mae **adran 6** yn dileu'r ddyletswydd bresennol o dan adran 73 o Ddeddf 2014 i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref. Gwneir hyn oherwydd y byddai'r ddyletswydd hon yn ddiangen os caiff y profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb eu dileu yn ôl y bwriad.

Mewnosodir adran newydd yn lle adran 75 o Ddeddf 2014 i nodi'r amgylchiadau pan fo **rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i geisydd ei feddiannu**. Y bwriad yw symleiddio deddfwriaeth digartrefedd a sicrhau bod llety dros dro a llety sefydlog ar gael i'r rhai y mae ei angen arnynt.

Mae'r ddyletswydd yn gymwys os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref, neu os oes ganddo lety dros dro addas o ganlyniad i fod yn ddigartref neu fod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Rhaid i'r ceisydd hefyd fod yn gymwys i gael cymorth.

Mae'r adran yn creu cysyniad newydd, sef **dim cysylltiad lleol â Chymru**. Mae'n darparu na fydd rhaid i awdurdodau lleol "dderbyn dyletswydd i sicrhau llety i'r rhai heb gysylltiad lleol yng Nghymru mwyach". Nid yw'r eithriad hwn i'r ddyletswydd yn berthnasol o dan amgylchiadau pan fo'r ceisydd, neu unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd, mewn perygl o gael ei gam-drin.

O ran carcharorion sy'n bwrw dedfrydau o garchar, nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol os nad yw'n rhesymol debygol y byddant yn cael eu rhyddhau o fewn chwe mis.

Mae **adran 7** yn diwygio Deddf 2014 i gyflwyno rhagor o amgylchiadau pan fydd y brif ddyletswydd tai o dan adran 75 yn dod i ben. Mae'n darparu y caiff awdurdodau lleol ddefnyddio **ystod ehangach o opsiynau llety** wrth gyflawni'r ddyletswydd, a fyddai wedi bod ar gael fel rhan o'r ddyletswydd o dan adran 73 (a ddilewyd) i helpu i sicrhau llety, ond nid o dan y brif ddyletswydd tai yn adran 75. Mae hyn yn cynnwys cartrefi blaenorol neu deuluol (os ydynt yn ddiogel) neu lety â chymorth.

Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y llety yn addas, ei fod yn debygol o fod ar gael i'w feddiannu am gyfnod o 12 mis o leiaf (yn wahanol i'r cyfnod presennol o chwe mis), a bod y ceisydd yn cytuno y dylai'r ddyletswydd ddod i ben. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol:

> "Mae'r ddarpariaeth yn fwriadol o eang er mwyn rhoi cyfle i barhau i ddod i gytundeb â rhanddeiliaid ynglŷn â'r mathau priodol o lety."

Mae'r adran hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir i awdurdodau lleol ddod â dyletswyddau adran 75 i ben os yw'r person dan sylw yn bwrw dedfryd o garchar. Y bwriad yw rhoi mwy o eglurder, a sicrhau na fydd dyletswyddau'n ddyledus gan awdurdodau lleol lle nad oes gobaith y gallant gyflawni gwaith ystyrlon.

Mae **adran 8** yn diwygio'r ddyletswydd bresennol i ddarparu llety dros dro, yn sgil diddymu angen blaenoriaethol a dileu'r ddyletswydd o dan adran 73 i helpu i sicrhau llety. Mae'n **ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau llety dros dro** pan fyddant yn fodlon bod ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys ond heb gadarnhau hynny eto. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddyletswydd fod yn ddyledus i geiswyr nad oes ganddynt gysylltiad lleol ag unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru, pan fo'r awdurdod lleol yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

## Diddymu hawlogaeth drwy gyeirio at anghenion blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol

Mae **adran 9** yn diwygio Deddf 2014 i **ddileu'r prawf angen blaenoriaethol**. Y bwriad yw sicrhau y bydd pawb sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sy'n cysylltu â'r awdurdodau lleol i ddweud hynny yn cael cymorth a llety os ydynt yn gymwys a phan fo ganddynt gysylltiad lleol.

Mae'r Bil yn darparu y bydd diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn cychwyn ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn statudol. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir bod hyn yn cydnabod na all awdurdodau lleol helpu unigolion sy'n ddigartref "os nad oes cyflenwad cadarn o dai sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion", a'i fod yn cyd-fynd ag argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol.

Mae **adran 10** yn diwygio Deddf 2014 i **ddileu'r prawf bwriadoldeb**. Yn y Memorandwm, nodir bod y prawf bwriadoldeb yn cael ei ystyried "yn rhwystr" i gyflawni'r nod o ymdrin â digartrefedd mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n ystyriol o drawma. Y rheswm am hyn yw nad yw'r prawf yn ystyried yr effaith y gall trawma ei chael ar ymddygiad, a gall annog diwylliant lle y mae ceiswyr yn cael eu categoreiddio fel rhai sy'n haeddu neu ddim yn haeddu cefnogaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon yr awdurdodau lleol ynghylch dileu'r prawf bwriadoldeb, mae adran 20 o'r Bil yn nodi amgylchiadau newydd lle gall y ddyletswydd i helpu ceiswyr ddod i ben.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ei bod yn debygol y bydd darpariaethau yn adran 9 ac adran 10 yn cael eu deddfu yn 2030-31 ar y cynharaf.

## Atgyfeiriadau cysylltiad lleol

Mae **adran 11** yn diwygio Deddf 2014 i **ddileu'r gofyniad i geisydd fod ag angen blaenoriaethol neu iddo fod yn ddigartref yn anfwriadol** cyn y gellir ei atgyfeirio at awdurdod lleol arall yng Nghymru neu Loegr.

Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i bobl sydd wedi'u dedfrydu i'r carchar gael eu hatgyfeirio cyn neu yn ystod y cyfnod atal. Y bwriad yw cefnogi atgyfeiriadau a chamau ataliol cynharach, ac i roi eglurder o ran y cyfrifoldebau i fynd i'r afael ag anghenion y rhai sydd yn y carchar.

Mae **adran 12** yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau pan fydd person yn cael ei drin fel un sydd **wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol**. Bydd y meini prawf presennol ar gyfer pennu cysylltiad lleol ar lefel awdurdod lleol yn aros yr un fath. Bwriad y pŵer i wneud

rheoliadau yw rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder ynghylch pryd y mae rhywun wedi datblygu cysylltiad lleol, sydd wedi'i nodi mewn canllawiau ar hyn o bryd.

Mae **adran 13** yn mewnosod adran newydd i Ddeddf 2014 i gadw eithriad rhag atgyfeirio ar gyfer ceiswyr a fyddai'n wynebu **mwy o risg o gael eu cam-drin** pe baent yn dychwelyd i'r ardal lle y mae ganddynt gysylltiad lleol. Mae'r diffiniad o gamdriniaeth wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cam-drin domestig ac unrhyw fath arall o gam-drin.

Mae'r adran hefyd yn darparu mai dim ond un atgyfeiriad o dan adran 80 y gellir ei wneud mewn perthynas â'r un cais, ac mae'n atal atgyfeiriad ar gyfer ceisydd sydd yn y carchar y mae wedi cael gwybod bod dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 (ac mae cyfnod o bythefnos wedi mynd heibio ers rhoi'r hysbysiad hwn).

Mae **adran 14** yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 82 o Ddeddf 2014, sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol mewn achosion a atgyfeirir o dan adran 80 o Ddeddf 2014. Bydd y dyletswyddau ar awdurdod tai lleol ("awdurdod A") yn adran newydd 82(1A) yn gymwys pa un a yw'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu ("awdurdod B") yng Nghymru neu Loegr. Ar ôl hysbysu awdurdod B, rhaid i awdurdod A sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd nes bod y ceisydd yn cael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi'u bodloni, er gwaethaf y ffaith bod dyletswyddau awdurdod A o dan adrannau 68 a 75 o ran digartrefedd yn dod i ben.

Dim ond pan fo awdurdod B yng Nghymru y mae adran 82(1B) yn gymwys, ac mae'n nodi'r camau a gymerir ar ôl i'r amodau ar gyfer atgyfeiriad gael eu bodloni. Gwneir darpariaeth debyg ar gyfer awdurdodau tai lleol yn Lloegr, ar ôl i'r amodau ar gyfer atgyfeiriad gan awdurdod tai lleol yng Nghymru gael eu bodloni, fel y'u disgrifir yn adran 14(7). Yn y Memorandwm, nodir: *"nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r cyfrifoldebau a osodir ar awdurdodau lleol sy'n atgyfeirio ceiswyr."*

Mae **adran 15** yn ystyried bod y profion angen blaenoriaethol a bwriadoldeb wedi'u dileu mewn perthynas ag **atgyfeiriadau o Loegr i Gymru**, gyda'r bwriad y bydd atgyfeiriadau at awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yn gweithio'r un ffordd.

Mae **adran 16** yn diwygio darpariaethau presennol Deddf 2014 sy'n **sicrhau bod y ceisydd yn cael hysbysiad** sy'n nodi pam y gwnaed atgyfeiriad o dan adran 80, yr effaith ar ei hawlogaeth barhaus, a'i hawl i ofyn am adolygiad.

Mae **adran 17** yn diwygio adran 85 o Ddeddf 2014 fel bod yr **hawl i ofyn am adolygiad** o ran a yw'r amodau ar gyfer atgyfeiriad cysylltiad lleol wedi cael eu bodloni ai peidio yn cael ei rhestru ar wahân. Nid yw'n gwneud newidiadau sylweddol i'r drefn bresennol.

## Dyletswyddau pellach i atal digartrefedd

Mae **adran 18** yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu **cymorth i gadw llety addas** a sicrhawyd o dan swyddogaethau digartrefedd. Mae'n gymwys yn unig yn achos unigolion y mae eu dyletswyddau digartrefedd blaenorol wedi dod i ben, ond y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried eu bod **yn dal i fod mewn perygl heb gymorth pellach** i gadw eu llety.

Mae'r adran yn darparu bod rhaid i awdurdodau tai lleol gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben o sicrhau bod llety'r ceisydd yn parhau i fod ar gael iddynt ei feddiannu. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan fyddai'r ddyletswydd hon yn dod i ben, ac yn creu hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau penodol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.

Bwriad y ddyletswydd newydd hon yw sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu darparu i geiswyr i atal digartrefedd mynych.

Mae **adran 19** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol **gymryd camau rhesymol i gysylltu â cheiswyr** sydd wedi derbyn cynigion o lety amgen o dan y darpariaethau a wneir yn adran 7, gyda'r bwriad o nodi a yw'r ceisydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac a oes angen cymorth arno. Mae'r Bil yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol wneud hyn o fewn ffenestr o ddau fis sy'n dechrau ar ddiwedd y pumed mis ar ôl i'r brif ddyletswydd digartrefedd gael ei chyflawni.

Y bwriad yw helpu i leihau digartrefedd mynych drwy roi diogelwch i'r rhai sy'n byw mewn llety nad ydynt yn fathau traddodiadol o dai cymdeithasol neu dai rhent preifat.

## Ymddygiad annerbyniol sy'n dod â dyletswyddau i ben

Mae **adran 20** yn dod â'r **prawf "methiant afresymol i gydweithredu"** i ben, a hynny, yn ôl y Memorandwm, am fod ei ddehongliad yn rhy eang ac nad yw'n ddigon ystyriol o drawma. Mae'r Bil yn darparu prawf mwy cul i'w gymhwyso o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Ceiswyr sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at staff tai'r awdurdod

lleol neu ddarparwyr gwasanaethau eraill;

- Ceiswyr sy'n mynd ati'n fwriadol i ddinistrio neu ddifrodi'n ddifrifol eiddo a ddarperir mewn cysylltiad â dyletswyddau llety digartrefedd; a
- Cheiswyr sy'n gwrthod cydweithredu'n fwriadol ac yn afresymol – mae'r Memorandwm yn nodi bod hyn i fod yn berthnasol pan fo ceiswyr wedi methu ag ymateb i sawl ymgais gan yr awdurdod lleol i gysylltu â nhw.

## Dyletswydd i ofyn a gweithredu

Mae **adran 21** yn creu dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig i nodi **achosion lle y gallai unigolion fod yn ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref**, ac yna gofyn am gydsyniad y person i wneud atgyfeiriad at yr awdurdod tai lleol ar ei ran. Byddai'n ofynnol hefyd i'r awdurdodau penodedig ddarparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth eraill, ac ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallai eu cymryd yn rhesymol i helpu'r ceisydd i sicrhau neu gadw ei lety.

Mae'r Bil yn nodi'r awdurdodau cyhoeddus a ganlyn:

- awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Lleol, ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol;
- Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- landlord cymdeithasol cofrestredig;
- corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru;
- darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n darparu tai yng Nghymru;
- ymddiriedolaeth gweithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar yng Nghymru;
- cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru;
- llywodraethwr sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru;
- llywodraethwr canolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru;
- cyfarwyddwr canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract yng Nghymru;
- pennaeth coleg diogel yng Nghymru;
- tîm troseddwyr ifanc sydd wedi ei sefydlu o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd

ac Anhrefn 1998 (p. 37) ar gyfer ardal yng Nghymru;

- rheolwr cartref diogel i blant yng Nghymru;
- darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru;
- swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas ag aelodau o luoedd arfog rheolaidd y Goron.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr. Yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhestr dyfu dros amser.

Mae **adran 22** yn diwygio Deddf 1996 fel bod cyrff cyhoeddus penodedig sydd eisoes yn ddarostyngedig i **"dyletswydd i atgyfeirio" debyg yn Lloegr** hefyd yn atgyfeirio person i Gymru pan fo'r person yn nodi awdurdod tai lleol yng Nghymru ac yn cydsynio i gael ei atgyfeirio.

## Darpariaeth ar gyfer pobl hyglwyf

Mae **adran 23** yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r nod o sicrhau **nad oes rhaid i unrhyw berson ifanc sy'n gadael gofal gysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref** i gael mynediad at lety addas. Mae'r diwygiad yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i berson ifanc sy'n gadael gofal sydd rhwng 18 a 21 oed symud iddo. Cefnogir y cynnig gan ddarpariaeth yn adran 37 sy'n anelu at flaenoriaethu pobl ifanc sy'n gadael gofal wrth ddyrannu tai cymdeithasol, drwy greu categori newydd o ffafriaeth resymol i bobl ifanc y mae'r ddyletswydd newydd hon yn ddyledus iddynt.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiffinio ystyr "llety addas" mewn perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Mae **adran 24** yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau sy'n cynnwys **protocol ar y cyd** rhwng gwasanaethau cymdeithasol a swyddogaethau tai. Y bwriad yw y bydd y protocolau yn nodi trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a'u teuluoedd. Yn y Memorandwm, nodir bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl mai gwasanaethau cymdeithasol plant fydd yr asiantaeth arweiniol yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae **adran 25** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cydweithrediad rhyngddynt eu hunain a chyrff cyhoeddus, gwirfoddol neu gyrff

eraill yn yr ardal leol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau gan gynnwys **protocol ar gyfer dull o gydlynu achosion rhwng nifer o asiantaethau** ar gyfer y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd y mae ganddynt nifer o anghenion cymorth cymhleth eraill. Yn y Memorandwm, nodir nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu protocol enghreifftiol ar gyfer cydlynu achosion.

Cefnogir y cynnig gan adran 95 wedi'i diwygio o Ddeddf 2014, sy'n galluogi awdurdodau lleol i alw ar ystod ehangach o gyrff cyhoeddus penodedig i'w cynorthwyo i fynd i'r afael ag amcanion digartrefedd.

Mae **adran 26** yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 i ddarparu y byddai **dyletswydd i warchod eiddo** yn dal i fod yn ddyledus i garcharorion os nad yw'r brif ddyletswydd tai o dan adran 75 yn ddyledus iddynt. Mae'r Memorandwm yn nodi: *"Er bod hyn yn ymddangos o bosibl fel petai'n darparu gwasanaeth i bobl ychwanegol yn y carchar, y gwir yw y bydd yn cadw'r un lefel o ddarpariaeth ag a geir ar hyn o bryd."*

Mae **adran 27** yn atgyfnerthu geiriad presennol adran 60 o Ddeddf 2014 gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaeth i ddarparu **gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy ar ddigartrefedd i bersonau a gedwir yn gaeth** yn ardal yr awdurdod neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal.

**Mae adran 28** yn diwygio'r diffiniadau presennol o "camdriniaeth" a "chamdriniaeth ddomestig" o dan adran 58 o Ddeddf 2014, gan **ehangu'r diffiniad o "gamdriniaeth ddomestig"** yn unol â Deddf Camdriniaeth Ddomestig 2021 i gynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a chamdriniaeth economaidd a seicolegol yn benodol.

## Ceisio barn pobl ddigartref

Mae **adran 29** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol **ymgynghori â phobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd** wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd lleol a gwasanaethau cynghori. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl sydd â phrofiad personol wrth iddi ddatblygu ac adolygu canllawiau digartrefedd, neu eu tynnu yn ôl.

## Cyflwr llety

Mae **adran 30** yn ceisio ehangu'r safonau cyfreithiol presennol o ran addasrwydd llety drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol **roi sylw i Ran 4 o Ddeddf**

**Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** (cyflwr anheddau), sy'n cynnwys addasrwydd i bobl fyw ynddo, wrth benderfynu a yw llety yn addas.

Mae **adran 31** yn rhoi dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi a gosod gerbron y Senedd **adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim** bob pum mlynedd, gan nodi y dylid gosod a chyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar 31 Rhagfyr 2030 neu cyn hynny.

## Cydweithredu

Mae **adran 32** yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad, ac yn rhoi **dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i gydweithredu** â chais gan yr awdurdod lleol oni fyddai gwneud hynny'n anghydnaws â dyletswyddau neu swyddogaethau'r corff ei hun.

Mae'r diwygiad yn ehangu'r rhestr o gyrff cyhoeddus penodedig, yn unol â'r rhestr a bennir yn adran 21, gan gynnwys cyrff yn Lloegr yn ogystal â Chymru. Mae'r adran yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr hon drwy reoliadau.

Mae **adran 33** yn mewnosod adran newydd i Ddeddf 2014, gan greu **dyletswydd newydd ar landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol** i ddarparu llety addas i geisydd y mae'r brif ddyletswydd tai yn adran 75 yn ddyledus iddo. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â chais o'r fath o fewn cyfnod rhesymol oni fydd ganddo resymau da dros beidio â gwneud hynny.

Mae'r adran yn diffinio "landlord cymdeithasol" fel a) landlord cymdeithasol cofrestredig neu b) darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig.

Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau, ac mae'n nodi bod rhaid ymgynghori ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol wrth ddatblygu'r canllawiau hynny.

Mewn achosion pan na fydd landlord cymdeithasol yn cymffurfio, mae'r adran yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru, a all gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais.

## Gweld llety

**Mae adran 34** yn creu dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i gymryd "camau

rhesymol" i ddarparu i'r ceisydd **gyfle i weld llety** sy'n cael ei gynnig, "pa un ai'n bersonol neu fel arall)", cyn y gall yr awdurdod lleol ddod â'i ddyletswydd digartrefedd i ben ar y sail bod y ceisydd wedi gwrthod cynnig addas. Y bwriad yw sicrhau bod unrhyw unigolyn sydd wedi'i analluogi ac nad yw'n gallu gweld y llety ei hun, er enghraifft os yw yn y carchar neu yn yr ysbyty, yn gallu gweld yr eiddo a gynigir.

## Rhan 2: Dyrannu tai cymdeithasol

### Personau cymhwysol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol

Mae **adran 35** yn rhoi i awdurdodau tai lleol y **disgresiwn i benderfynu pa ddosbarthiadau o bobl sy'n "bersonau cymhwysol" neu nad ydynt yn bersonau cymhwysol** i gael tai cymdeithasol yn eu hardal, ar yr amod nad ydynt mewn grŵp sy'n anghymwys o gael dyraniad. Y bwriad yw rheoli ffigurau rhestrau aros a'i gwneud yn haws i'r bobl â'r angen mwyaf gael tai.

Mae'r adran hefyd yn creu pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w trin neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

Mae'r adran hefyd yn diwygio adran 160A(7) o Ddeddf 1996, sy'n galluogi awdurdod tai lleol i anghymhwyso person rhag cael dyraniad os bydd y person hwnnw, neu aelod o'i aelwyd, wedi bod **yn euog o "ymddygiad annerbyniol"** sy'n ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas fel tenant. Mae'r diwygiad yn ceisio ei gwneud yn gliriach bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad hwnnw yn digwydd eto, ac felly, os yw'r person wedi cymryd camau i newid ei ymddygiad, na fydd ei hanes blaenorol yn parhau i effeithio ar ei sefydlogrwydd o ran tai.

### Ffafriaeth i bersonau mewn cynlluniau dyrannu

Mae **adran 36** yn cyflwyno **prawf 'manipiwleiddio bwriadol' newydd** a fydd yn gymwys pan fydd awdurdodau lleol yn canfod bod ceisydd wedi ceisio manipiwleidido'r system ddigartrefedd yn fwriadol er mwyn cael mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol.

Ni fyddai'r prawf yn effeithio ar fynediad at gymorth digartrefedd statudol ond byddai'n golygu na roddir unrhyw ffafriaeth i'r ceisydd ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol. Y bwriad yw efelychu effaith anghymhellol y prawf bwriadoldeb.

Mae **adran 37** yn creu chweched categori ffafriaeth resymol o ran **dyraniadau tai cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal**, yn unol ag adran 23. Y nod yw sicrhau na ddylid defnyddio'r system ddigartrefedd fel y llwybr arferol o ofal i fyw'n annibynnol.

### Cofrestrau

Mae **adran 38** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol **weithredu cofrestr tai gyffredin**, sef un gofrestr ar gyfer pawb sydd wedi gwneud cais am dai cymdeithasol yn yr ardal. Yn y Memorandwm, nodir bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn gweithredu cofrestrau tai cyffredin. Y bwriad yw symleiddio'r broses o wneud cais am dai cymdeithasol ym mhob ardal.

Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol **weithredu cofrestr tai hygyrch**, i gynnwys yr holl dai yn yr ardal sydd â nodweddion a allai gynorthwyo person anabl. Y bwriad yw gwella'r drefn o ddyrannu'r llety sy'n cyd-fynd orau ag anghenion ceiswyr anabl.

Mae'r Bil yn creu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaethau pellach mewn perthynas â'r drefn o weithredu cofrestrau tai hygyrch.

## Rhan 3: Cyffredinol

Mae **adran 39** yn darparu diffiniadau o dermau a ddefnyddir drwy'r Bil.

Mae **adran 40** yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1996, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf 2014.

Mae **adran 41** yn cyflwyno pŵer cyffredinol i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed mewn perthynas â'r Bil drwy reoliadau.

Mae **adran 42** yn nodi pryd y daw darpariaethau'r Bil i rym.

Mae **adran 43** yn nodi enw byr y Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Atodlen 1: Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

Mae **paragraff 1** yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf 1996 i roi 'Gweinidogion Cymru' yn lle'r cyfeiriadau at yr 'Ysgrifennydd Gwladol'. Mae'r newidiadau'n adlewyrchu effaith

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a drosglwyddodd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn diwygio'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 172 o Ddeddf 1996 i egluro bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud gan y Senedd.

Mae **paragraff 2** yn diwygio tabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, o ganlyniad i fewnosod adrannau 94A a 94B yn Neddf 2014 gan adran 21 o'r Bil ac i adlewyrchu gwelliannau i adran 95.

Mae **paragraffau 3 i 18** yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill i Ddeddf 2014 yn bennaf o ganlyniad i hepgor adrannau 70, 73, 77 a 78.

Mae **paragraff 19** yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 99 o Ddeddf 2014 i fewnosod diffiniadau ychwanegol o dermau.

Mae **paragraff 20** yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 2 i Ddeddf 2014 sy'n adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan y Bil i adran 73 a diddymu'r prawf angen blaenoriaethol.